

Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Eiriolaeth (Ymyfreitha Troseddol)

Bydd ymgeiswyr yn cael 16 asesiad yn SQE2. I basio SQE2 bydd angen i ymgeiswyr gyrraedd cyfanswm y marc pasio ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn a thrafodaeth o'r ateb yn enghraifft o asesiad eiriolaeth. Bydd ymgeiswyr yn cael 45 munud i baratoi a 15 munud i gynnal yr eiriolaeth.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesu SQE2.

Noder fod y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu llunio i roi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2. Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.

Cwestiwn a phapurau ymgeiswyr ychwanegol

E-bost ar yr Ymgeisydd

Oddi wrth: Partner
Anfonwyd: 13 Rhagfyr 202#
At: Ymgeisydd
Testun: Steven Jackson

Rwyf am i chi gynrychioli Steven Jackson yn ei ymddangosiad cyntaf gerbron y Barnwr Rhanbarth yn Llys Ynadon Gorllewin Llundain heddiw.

Mae Mr Jackson wedi'i gyhuddo o un drosedd o ymosod gan beri gwir niwed corfforol i'w wraig Emma Jackson.

Mae'n haeru ei fod yn ddiuog ac mae'n bwriadu pledio felly. Bydd y Llys felly'n bwrw ymlaen i ddyrannu a rheoli'r achos. Nid oes gan Mr Jackson ddim euogfarnau na rhybuddiadau blaenorol.

Bydd yr erlyniad yn gwahodd y Barnwr Rhanbarth i wrthod awdurdodaeth ddiannod am fod yr achos yn un rhy ddifrifol i'w glywed gerbron ynadon. Bydd yr erlyniad yn cyfeirio at natur yr anafiadau a ddioddefodd yr achwynydd a'r cyd-destun lle'r oeddent wedi digwydd. Bydd angen i chi fod yn barod felly i wneud sylwadau priodol ar hyn o beth ar adeg y dyraniad.

[I ddibenion yr asesiad hwn a beth bynnag fydd eich sylwadau ar adeg y dyraniad, bydd y Barnwr Rhanbarth yn cadw awdurdodaeth ddiannod a bydd yr achos yn aros yn y Llys Ynadon. Bydd y Barnwr Rhanbarth wedyn yn gofyn i chi fwrw ymlaen i'w annerch ef/hi ar ystyriaethau cyn-treial.]

Bydd y Barnwr Rhanbarth am wybod ar ba sail mae Steven Jackson yn pledio'n ddiuog er mwyn rheoli'r achos yn briodol a phennu dyddiad ar gyfer treial. Bydd ef/hi hefyd am i chi ddweud wrtho/wrthi ar ba sail y byddwn yn ymdrechu i herio derbynioldeb cyfaddefiad Steven Jackson yn ei gyfweliad o dan rybuddiad a recordiwyd yng ngorsaf yr heddlu.

Felly, yng ngwrandawriad heddiw dylech gyflwyno'r canlynol ar lafar:

- 1. Sylwadau'r amddiffyniad ynglŷn â pham y dylai'r Llys Ynadon gadw awdurdodaeth yn yr achos hwn;**
- 2. Ar ba sail y mae Mr Jackson yn pledio'n ddiuog gan gynnwys amlinelliad o'r anghytundeb ynglŷn â ffeithiau, a'r rhai lle mae cytundeb; a'r**
- 3. Dadleuon cyfreithiol y byddwch yn eu defnyddio i geisio peidio â chynnwys cyfaddefiad Mr Jackson yn ei gyfweliad o dan rybuddiad a recordiwyd yng ngorsaf yr heddlu.**

Diolch

Partner

Atodiadau:

1. Datganiad Emma Jackson
2. Datganiad Dr Dora Simpson
3. Datganiad PC Collins
4. Cofnod o gyfweliad yr heddlu â Steven Jackson
5. Cyfarwyddiadau'r cleient

6. Sentencing Council for England and Wales Assault Definitive Guideline:
Extract from Specific Sentencing Guideline for s.47 Offences Against the Person Act
1861

Nodiadau i Ymgeiswyr:

- 1. I ddibenion yr asesiad, nid fydd cyfreithiwr yr erlyniad, na'r diffynnydd yn bresennol yn yr ystafell gyda chi. Fodd bynnag, wrth lunio eich dadleuon dylech dybio eu bod yn bresennol.**
- 2. Byddwch yn annerch un Barnwr Rhanbarth a fydd wedi clywed sylwadau cyfreithiwr yr erlyniad ynglŷn â dyrannu. Bydd gan y Barnwr Rhanbarth gopi o Atodiadau 1-4 a 6.**

DATGANIAD TYST

(Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh. 16.2;
Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, adran 9)

Enw: Emma Jackson

Oed: Dros 18 oed

Mae'r datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gennyf, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'n cred ac rwyf yn ei wneud gan wybod os caiff ei ddefnyddio mewn tystiolaeth y gallaf gael fy erlyn os wyf wedi datgan unrhyw beth ynddo'n fwriadol y gwn sy'n anwir neu y gwn nad yw'n wir.

Rwyf wedi bod yn briod â Steven Jackson am dair blynedd. Rydym yn byw yn 9 Lancaster Road, Llundain, gyda fy merch o fy mhriodas flaenorol (Katy, 16 oed) a'n mab (Thomas, 13 mis oed). Nid yw Steven yn ddyn hawdd i fyw ag ef. Mae'n yfed yn drwm ac mae'n ymosodol. Mae ei fusnes mewn trafferthion ariannol, sydd wedi ei wneud yn gysetlyd iawn. Mae'n colli ei dymer yn rheolaidd, ac mae hynny'n fy nychryn.

Ychydig fisoedd yn ôl mi wnes ddechrau amau bod Steven yn cael perthynas â rhywun arall. Roedd llawer o dyndra yn y tŷ. Roedd Steven yn cyrraedd adref yn hwyr yn aml. Pan wnes i ei herio, dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio'n hwyr. Roeddwn yn gwybod bod ganddo broblemau efo'i fusnes. Dywedais fy mod yn barod i helpu ond nid oedd ganddo ddi-ddordeb. Dechreuodd yfed potel o win gyfan bron bob nos. Rai wythnosau'n ôl, cawsom ffræ fawr. Gadawodd y tŷ yn ei dymer ac ni ddaeth yn ôl y noson honno. Ymddiheurodd y diwrnod canlynol ond rhybuddiodd fi i beidio swnian arno am fod ganddo lawer ar ei feddwl.

Yna, mi oedd pethau am ychydig. Ar 27 Tachwedd 202#, mi welais neges destun ar ffôn Steven a oedd yn brawf pendant ei fod yn gweld menyw arall. Pan gyrhaeddodd adref tua 11.15 pm, daeth i fyny i'n hystafell wely. Mi allwn weld ei fod yn feddw. Pan holais ef ynglŷn â'r neges destun, dechreuodd weiddi a fy nghyhuddo o ysbio arno. Dywedais wrtho fy mod eisiau iddo adael y tŷ. Roedd ei ymateb yn dreisgar. Gafaelodd yn fy mreichiau a fy ngwthio yn erbyn wal yr ystafell wely.

Dechreuodd bacio cês a rhuthro allan o'r ystafell wely ac ar y landin ar ben y grisiau. Dilynais ef a gofyn beth oedd yn ei wneud. Rhoddodd ddwrn imi yn fy wyneb ac yna gwthiodd fi'n ôl gan achosi imi syrthio i lawr y grisiau. Rhuthrodd i lawr y grisiau ac allan drwy'r drws ffrynt. Roeddwn yn teimlo'n sâl ac yn ddryslyd a sylweddolais ar unwaith fy mod wedi brifo ac yn gwaedu. Ffoniais fy chwaer ac mi aeth hi â fi i'r ysbyty. Cadarnhawyd yno fy mod wedi torri fy nhrwyn ac wedi torri fy ngwefus, a bod fy wyneb a fy asennau wedi cleisio.

Llofnod: *E Jackson*
202#

Dyddiad: *28 Tachwedd*

DATGANIAD TYST

(Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh. 16.2;
Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, adran 9)

Enw: Dr Dora Simpson

Oed: Dros 18 oed

Mae'r datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gennyf, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'n cred ac rwyf yn ei wneud gan wybod os caiff ei ddefnyddio mewn tystiolaeth y gallaf gael fy erlyn os wyf wedi datgan unrhyw beth ynddo'n fwriadol y gwn sy'n anwir neu y gwn nad yw'n wir.

Rwyf yn feddyg sy'n gweithio yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty St Mary's.

Ar 28 Tachwedd 202# am 2.30am, bu imi archwilio claf benywaidd o'r enw Emma Jackson.

Roedd wedi torri ei gwefus ac roedd ochr chwith ei hwyneb a'i hasennau wedi cleisio. Roedd hefyd wedi torri'i thrwyn.

Ni allaf wneud sylw ar sut yr achoswyd yr anafiadau.

Ar ôl pelydr-x, rhoddwyd cyffuriau lladd poen i'r claf a chafodd ei rhyddhau heb angen am driniaeth ddilynol.

Llofnod: **Dora Simpson** (tyst) Dyddiad: **28 Tachwedd 202#**

DATGANIAD TYST

(Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh. 16.2;
Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, adran 9)

Enw: Sally Collins

Oed: Dros 18 oed

Mae'r datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gennyf, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'n cred ac rwyf yn ei wneud gan wybod os caiff ei ddefnyddio mewn tystiolaeth y gallaf gael fy erlyn os wyf wedi datgan unrhyw beth ynddo'n fwriadol y gwn sy'n anwir neu y gwn nad yw'n wir.

Fi yw PC 1322 Sally Collins ac rwyf wedi fy lleoli yng Ngorsaf Heddlu Hammersmith.

Ar 28 Tachwedd 202# am 1800 o'r gloch, euthum i 9 Lancaster Road, Llundain, lle cymerais ddatganiad gan Emma Jackson. Hefyd tynnais gyfres o ffotograffau o'r anafiadau y dywedodd Emma Jackson iddi eu dioddef ar 27 Tachwedd 202#. Dangosir y ffotograffau fel SC1¹.

Gan weithredu ar wybodaeth a gafwyd, euthum i adeilad busnes Steven Jackson yn Longsdale Road, Llundain, W12 8RT am 2030 o'r gloch ar 28 Tachwedd 202#. Roedd Mr Jackson yn cysgu wrth ei ddesg. Mi wnes ddeffro, arestio a rhybuddio Steven Jackson ar amheuaeth o achosi gwir niwed corfforol i Emma Jackson, yn groes i adran 47 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861. Roedd yn amlwg imi fod Steven Jackson yn feddw iawn. Roedd ei leferydd yn aneglur ac roedd yn simsan ar ei draed. Aethpwyd ag ef i Orsaf yr Heddlu Hammersmith lle cafodd ei gadw yn y ddalfa'n unol â PACE 1984 a chafodd ei gyfweld y bore canlynol.

Am 0730 o'r gloch ar 29 Tachwedd 202#, cynhaliais gyfweiliad wedi'i recordio â Steven Jackson ynghyd â PC 6531 Jason Jones (Arddangosyn SC2). Cychwynnodd y cyfweiliad am 0730 o'r gloch a daeth i ben am 0752 o'r gloch. Ar ddiwedd y cyfweiliad, cyhuddwyd Steven Jackson o ymosod gan beri gwir niwed corfforol i Emma Jackson ac fe'i rhyddhawyd ar fechnïaeth yn amodol ar amodau i fynychu Llys Ynadon Gorllewin Llundain ar 13 Rhagfyr 202#.

Llofnod: *S Collins*

Dyddiad: *29 Tachwedd 202#*

¹ **Nodyn i Ymgeiswyr: Nid yw Arddangosyn SC1 ar gael i ddibenion yr asesiad.**

Cofnod o Gyfweiliad yr Heddlu dan Rybuddiad (Arddangosyn SC 2)

Y sawl a gyfwelwyd: STEVEN JACKSON
Lleoliad y cyfweiliad: Gorsaf yr Heddlu Hammersmith
Dyddiad y cyfweiliad: 29 Tachwedd 202#
Amser cychwyn: 0730 o'r gloch
Amser cwblhau: 0752 o'r gloch
Hyd y cyfweiliad: 22 munud
Cyfwelydd: PC Sally Collins 1322
Eraill yn bresennol: PC Jason Jones 6531

Cafodd STEVEN JACKSON rybuddiad a'i atgoffa o'i hawl i gael cyngor cyfreithiol. Atebodd JACKSON ei fod yn deall y rhybuddiad ac nad oedd angen cyfreithiwr arno.

PC Collins: A ydych chi'n deall eich bod wedi'ch arestio?

SJ: Ydw, honiad ffug o ymosod ar fy ngwraig.

PC Collins: Mae eich gwraig yn honni eich bod wedi'i tharo a'i gwthio i lawr y grisiau yn eich cartref gan achosi iddi dorri ei thrwyn ac anafu ei hasennau. Dywed hi fod y digwyddiad wedi digwydd ar 27 Tachwedd 202#, yn fuan ar ôl 11.15 pm. Beth sydd gennych i'w ddweud mewn ymateb i'r honiad?

SJ: A yw hi wedi gwneud cwyn ffurfiol ynteu a oes rhywun wedi'i hannog i wneud hyn?

PC Collins: Atebwch fy nghwestiwn. Dyma eich cyfle i roi eich fersiwn chi.

SJ: Am ba hyd mae'r ffars yma'n mynd i bara? Dwi'n teimlo'n sâl ac mae'n rhaid imi fynd i fy ngwaith y bore yma.

PC Collins: Atebwch fy nghwestiynau. Mi fydd er eich lles chi i wneud. Rydym yn cymryd achosion o drais domestig yn ddifrifol iawn. Rwyf wedi egluro'r rhybuddiad i chi. Dyma eich cyfle i ddweud eich dweud. Mi allwn eistedd mewn tawelwch os mynnwch chi.

(mae 6 munud o dawelwch yn mynd heibio ar y tâp)

PC Collins: Dywedwch rywbeth wrtha i am eich perthynas ag Emma.

SJ: (Nid yw ymateb y sawl a ddrwgdybir yn eglur)

PC Collins: Mae eich gwraig yn dweud eich bod wedi cyrraedd adref yn feddw ar 27

PC Collins: Nid yw'n fater o beth rwy'n ei gredu Mr Jackson. Dyma eich cyfle chi i egluro pethau. Mae eich gwraig wedyn yn dweud ei bod yn sefyll ar ben y grisiau pan wnaethoch chi ei tharo a'i gwthio'n ôl i lawr y grisiau. Ai dyna a ddigwyddodd?

SJ: Mi ydych chi. Mi ydych chi'n credu popeth. Wnes i ddim ei tharo na'i gwthio. Roedd hi'n feddw.

PC Collins: Nid dyna mae hi'n ei ddweud.

SJ: Gwrandewch, faint mae hyn yn mynd i'w gymryd? Dwi angen i hyn gael ei ddatrys yn sydyn. Mi ydw i wedi bod yma drwy'r nos. Rwyf wedi dweud wrthyf yn barod nad ydw i'n teimlo'n dda, a rhaid imi fynd i fy ngwaith. Rhaid imi fod mewn cyfarfod pwysig.

PC Collins: Mae'n dibynnu ar eich parodrwydd chi i gydweithredu, Mr Jackson. Os byddwch chi'n parhau i wadu'r honiad, mi fydd yn rhaid inni eich cadw yma er mwyn inni wneud ymholiadau pellach ac yna cyfeirio'r achos at Wasanaeth Eryl y Goron, ac mi all hynny gymryd amser.

SJ: Mae'n edrych yn debyg eich bod am fy nghyhuddo beth bynnag y byddaf yn ei ddweud.

PC Collins: Os byddwch chi'n gwadu'r honiadau yn eich erbyn, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Wasanaeth Eryl y Goron ac mi fydd angen iddynt hwy ystyried y dystiolaeth cyn penderfynu eich cyhuddo.

SJ: Gwrandewch, rwy'n derbyn nad yw pethau wedi bod yn hawdd rhwng Emma a fi. Mae ganddi broblem alcohol. Rwy'n cyfaddef mod i wedi colli fy nhymmer ar y noson honno. Mi wnes i roi slap iddi ar ei hwyneb ar ben y grisiau a'i gwthio hi i ffwrdd. Yna collodd Emma ei chydbwysedd a syrthiodd hi i lawr y grisiau. A dyna ni. Cyhuddwch a rhyddhewch fi, imi gael gadael y lle yma a mynd yn ôl at fy musnes.

Daeth y cyfweiliad i ben.

Cyfarwyddiadau'r Cleient

Enw: Steven Jackson

Dyddiad geni: 14 Mai 1979

Cyfeiriad: 9 Lancaster Road, Llundain, W12 7PR.

Rwyf yn ddyn busnes hunangyflogedig. Rwyf yn rhedeg fy musnes glanhau carpedi fy hun.

Y drosedd

Rwyf wedi cael fy nghyhuddo o ymosod ar fy ngwraig Emma Jackson, gan achosi gwir niwed corfforol iddi. Mae hi'n 36 oed. Mae gennym un plentyn, Thomas, 13 mis oed. Mae gan Emma ferch o briodas flaenorol, Katy, 16 oed. Mae hi'n byw â ni. Rwyf yn gwadu fy mod wedi ymosod arni.

Mae'r berthynas rhyngof i a fy ngwraig wedi bod yn fwy a mwy anodd yn ystod y mis neu fwy diwethaf. Bob tro y byddwn yn cyrraedd adref yn hwyr roedd hi'n dechrau ffraeo. Mae hi'n yfed yn dawel bach. Mae'n ceisio cuddio'r peth oddi wrtha i ond mi wn ei bod yn yfed yn y dirgel. Rwyf wedi dod ar draws poteli gwag o fodca a jin yn ei bag ac yng nghanol y sbwriel. Pan fyddaf yn ei holi am y peth, mae hi'n amddiffynol iawn.

Rwyf yn cyfaddef fy mod wedi cam-drin Emma'n eiriol ar adegau. Ond nid wyf erioed wedi ymosod arni. Mae Emma'n colli ei thymmer yn hawdd a phan fydd hynny'n digwydd nid oes ganddi reolaeth dros ei gweithredoedd, yn enwedig os yw wedi bod yn yfed.

I wneud pethau'n waeth mae fy musnes mewn trafferthion ariannol. Rwyf mewn perygl o fod yn ansolfedd. Mae gan ddau gwmni mawr ddyledion sylweddol imi am eu bod hwythau mewn trafferthion. Rwyf wedi bod yn gweithio'n hwyr i geisio gwneud iawn am yr arian sy'n ddyledus, a hefyd i geisio chwilio am fusnes newydd.

Mae fy ngwraig yn honni fy mod wedi ymosod arni ar 27 Tachwedd 202#. Mae hi'n dweud fy mod wedi ei gwthio yn erbyn wal yr ystafell wely, wedi ei tharo ar ei thrwyn a'i gwthio i lawr y grisiau yn ein cartref gan achosi iddi dorri ei thrwyn, torri ei gwefus a chleisio. Nid yw hyn yn wir.

Mi gyrhaeddais adref ar 27 Tachwedd. Mae'n siŵr ei bod tua 11pm. Roeddwn wedi cael cyfarfod â chwsmer posibl, rheolwr ardal i gadwyn o fwytai, cryn bellter i ffwrdd ar y noson dan sylw, a chymerodd fwy o amser nag arfer i gyrraedd adref oherwydd damwain ar y draffordd. Roeddwn wedi blino. Roeddwn yn gwbl sobor. Daeth Emma ataf yn yr ystafell wely. Gallwn weld ei bod yn feddw. Roedd wedi ypsetio. Roedd fy ffôn symudol yn ei llaw. Roeddwn wedi bod yn chwilio amdano drwy'r dydd. Mi sylweddolais wedyn ei bod hi wedi'i gymryd. Dechreuodd siarad am negeseuon testun, gan fy nghyhuddo o gael perthynas â rhywun arall.

Nid hwn oedd y tro cyntaf i Emma ddweud hyn, ac nid wyf wedi bod yn cael perthynas arall. Mi wnes sylweddoli ar y funud honno nad oedd pethau'n mynd i newid rhyngom. Rwyf yn cyfaddef fy mod wedi gwylltio. Mi estynnais am fy nghês a dechrau tynnu fy nillad allan o'r droriau. Gofynnodd Emma beth oeddwn yn ei wneud. Dywedais wrthi fod ein priodas drosodd a fy mod yn gadael. Gwaeddodd arna i a cheisio fy nharo. Gwthiais hi i ffwrdd. Roedd yn fy nghyhuddo o fod mewn perthynas arall. Dywedodd nad oeddwn yn ffit i fod yn dad i Thomas a, phetawn yn ceisio cael ysgariad, na fuaswn i byth yn gweld Thomas eto ac y byddai hi'n cymryd y busnes oddi arna i.

Roeddem yn gweiddi ar ein gilydd. Mi wnes ei chyhuddo hi o fod yn feddw. Mi estynnais am y cês a mynd ar y landin ar ben y grisiau. Roeddwn eisiau gadael. Dilynodd Emma fi a cheisio rhwystro fy ffordd ar ben y grisiau. Rhoddais y cês i lawr a cheisio siarad â hi, ond mi gollodd bob rheolaeth. Neidiodd ataf gyda'i dyrnau wedi'u cau, ond wrth iddi wneud hynny, baglodd dros y cês a cholli ei chydbwysedd ac, yn anffodus, mi syrthiodd i lawr y grisiau. Wnes i ddim ei tharo na'i gwthio i lawr y grisiau. Rwy'n cyfaddef fy mod wedi gwylltio. Wnes i ddim sylweddoli ei bod wedi brifo; roedd hi'n dal i weiddi arna i, yn dweud wrtha i am adael y tŷ. Camais drosti ar waelod y grisiau a gadael y tŷ. Cefais fy arestio yn fy swyddfa'r noson ganlynol. Roeddwn wedi bod yn yfed am y rhan fwyaf o'r diwrnod. Roedd chwaer Emma wedi anfon neges destun yn dweud wrtha i am gadw draw oddi wrth Emma a bod Emma yn yr ysbyty.

Nid oeddwn erioed wedi cael fy arestio o'r blaen. Doedd gen i ddim euogfarnau na rhybuddiadau blaenorol, ac nid wyf erioed wedi bod mewn llys o'r blaen.

Cadw yn swyddfa'r heddlu

Cefais fy nghadw dros nos gan yr heddlu. Mi wnes ddeffro mewn cell gyda chur pen ofnadwy. Dywedais wrth y plismon fy mod yn teimlo'n sâl. Cefais bowlen chwydu gardbord a gwydraid o ddŵr. Roedd hyn am 6.00 o'r gloch. Cefais gynnig brecwast ond roeddwn yn rhy sâl i'w fwyta. Nid oeddwn wedi bwyta dim am 24 awr ac roeddwn yn teimlo'n wan iawn.

Gofynnais i'r plismon beth oedd yn mynd i ddigwydd imi. Cefais wybod fy mod yn mynd yn mynd i gael fy nghyfweld yn ddiweddarach yn y dydd. Dywedais wrth y plismon fod gen i gyfarfod busnes pwysig iawn ac ymrwymadau contract roedd yn rhaid imi eu cyflawni. Roedd y cyfarfod â darpar gleient ar noson 27 Tachwedd. Roedd cael gwaith newydd mor bwysig imi. Dywedwyd wrthyf y byddai'n rhaid i fy ngwaith aros.

Cefais gynnig cyngor cyfreithiol pan gyrhaeddais orsaf yr heddlu. Nid wyf yn adnabod unrhyw gyfreithwyr, ac felly gofynnais am weld y cyfreithiwr ar ddyletswydd. Dywedwyd fod gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd dri chlient arall i'w gweld o fy mlaen i ac felly byddai'n rhaid imi aros fy nhro. Dywedwyd y gallwn gael fy nghyfweld o fewn yr awr nesaf, os oeddwn yn barod i gydweithredu. Penderfynais beidio ag aros am y cyfreithiwr ar ddyletswydd.

Y cyfweliad â'r heddlu

Roedd agwedd y plismon yn elyniaethus ac ymosodol drwy gydol y cyfweliad. Dywedodd pe bawn yn dal i wadu'r honiad, y byddai'n rhaid iddi wneud rhagor o ymholiadau ac y buaswn yn cael fy nghadw yng ngorsaf yr heddlu. Roeddwn yn teimlo'n sâl iawn. Roedd angen imi adael i gyrraedd fy nghyfarfod. Roedd yn rhaid i fy musnes gael y gwaith newydd os oedd am oresi.

Penderfynais os na fyddai neb yn fy nghredu mai'r unig ffordd o gael fy rhyddhau oedd drwy gyfaddef fy mod wedi rhoi slap i fy ngwraig a'i gwthio gan achosi iddi syrthio. Roedd yn beth gwirion i'w wneud, ond roeddwn o dan bwysau. Nid oeddwn yn meddwl yn rhesymol yn ystod y cyfweliad, ac mi ddywedais bethau nad oedd yn wir.

Mi hoffwn yn awr dynnu'n ôl yr hyn a ddywedais yn y cyfweliad.

Ymosod gan Beri Gwir Niwed Corfforol/Gwir Niwed Corfforol Gwaethygedig ar sail Hil neu Grefydd

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, adran 29, Deddf Troseddau Corfforol 1861, adran 47

Yn weithredol o: 01 Gorffennaf 2021

Ymosod gan beri gwir niwed corfforol, [Deddf Troseddau Corfforol 1861 \(adran 47\)](#)

Gwir niwed corfforol gwaethygedig ar sail hil neu grefydd, [Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 \(adran 29\)](#)

Trosedd neillffordd
[Adran 47](#)

Uchafswm 5 mlynedd o garchar

Amrediad y drosedd – Dirwy - 4 blynedd o garchar
[Adran 29](#)

Uchafswm: 7 mlynedd o garchar

Mae'r rhain yn droseddau penodedig i ddibenion adrannau 266 a 279 (dedfryd estynedig ar gyfer troseddau treisgar, rhywiol neu derfysgol penodol) o'r Cod Dedfrydu.

CAM 1 Penderfynu ar gategori'r drosedd

Dylai'r llys benderfynu ar gategori'r drosedd gyda chyfeiriad at y ffactorau a restrir yn y tablau isod *yn unig*. I benderfynu ar y categori dylai'r llys asesu *beiusrwydd a niwed*.

Beiusrwydd

Penderfynir ar lefel y beiusrwydd drwy bwyso a mesur holl ffactorau'r achos. Os oes nodweddion yn bresennol sy'n dod o fewn gwahanol lefelau o feiusrwydd, dylai'r llys bwyso a mesur y nodweddion hyn gan roi pwyslais priodol ar ffactorau perthnasol i wneud asesiad teg o feiusrwydd y troseddwr.

A – Beiusrwydd uchel

o Graddfa uchel i gynllunio neu ragfwriad
o Mae'r dioddefwr yn amlwg yn agored i niwed oherwydd oedran, nodweddion neu amgylchiadau personol

- o Defnyddio arf peryglus iawn neu wrthrych sy'n cyfateb i arf *
- o Llundagu, mygu
- o Rôl flaenllaw mewn gweithgarwch grŵp
- o Ymosod estynedig/mynych

B – Beiusrwydd cymedrol

- o Defnyddio arf neu wrthrych sy'n cyfateb i arf nad yw'n dod o fewn categori A
 - o Rôl lai mewn gweithgarwch grŵp
 - o Achosion sy'n dod o fewn categori A neu C oherwydd:
 - Bod ffactorau mewn categorïau uchel neu is yn bresennol sy'n gwrthbwysu yn erbyn ei gilydd; a/neu
 - Mae beiusrwydd y troseddwr yn dod o fewn y ffactorau fel y'u disgrifiwyd mewn beiusrwydd uchel ac is

C – Beiusrwydd is

- o Dim arf wedi'i ddefnyddio
- o Hunan amddiffyn gormodol
- Ymosod greddfodol/mympwyol a byr
 - o Anhwylder meddyliol neu anabledd dysgu, os yn gysylltiedig â chyflawni'r drosedd

* Gall arf peryglus iawn gynnwys arfau fel cylllyll a drylliau. Gall gwrthrychau sy'n cyfateb i arfau gynnwys sylweddau cyrydol (fel asid), y mae'n rhaid i'w natur beryglus fod yn sylweddol uwch a thu hwnt i'r diffiniad deddfwriaethol o arf ymosodol sef; 'any article made or adapted for use for causing injury, or is intended by the person having it with him for such use'. Rhaid i'r llysbenderfynu a yw'r arf neu wrthrych sy'n cyfateb i arf yn beryglus iawn ar sail ffeithiau ac amgylchiadau'r achos.

Niwed

Categori 1

Anaf corfforol difrifol neu niwed seicolegol difrifol a/neu effaith sylweddol ar y dioddefwr

Categori 2

Y niwed yn dod o fewn categorïau 1 a 3

Categori 3

Rhyw lefel o anaf corfforol neu niwed seicolegol gydag effaith gyfyngedig ar y dioddefwr

CAM 2 Man cychwyn ac ystod y categori

Ar ôl penderfynu ar y categori, dylai'r llys ddefnyddio'r manau cychwyn cyfatebol i benderfynu ar ddedfryd o fewn yr ystod categorïau isod. Mae'r man cychwyn yn gymwys i bob troseddwr beth bynnag eu ple neu euogfarnau blaenorol. Gallai achos arbennig o ddifrifol, sy'n dangos sawl nodwedd o feiusrwydd mewn un cam, deilyngu addasiad am i fyny o'r man cychwyn cyn addasu pellach ar gyfer nodweddion gwaethygol neu liniarol, fel y gwelir isod.

...

Niwed	Beiusrwydd		
	A	B	C
Niwed 1	<i>Man cychwyn</i> 2 flynedd 6 mis o garchar	<i>Man cychwyn</i> 1 flwyddyn 6 mis o garchar	<i>Man cychwyn</i> 36 wythnos o garchar
	<i>Ystod y categori</i> 1 flwyddyn 6 mis – 4 blynedd o garchar	<i>Ystod y categori</i> 36 wythnos – 2 flynedd 6 mis o garchar	<i>Ystod y categori</i> Gorchymyn cymunedol lefel uchel – 1 flwyddyn 6 mis o garchar
Niwed 2	<i>Man cychwyn</i> 1 flwyddyn 6 mis o garchar	<i>Man cychwyn</i> 36 wythnos o garchar	<i>Man cychwyn</i> Gorchymyn cymunedol lefel uchel
	<i>Ystod y categori</i> 36 wythnos – 2 flynedd 6 mis o garchar	<i>Ystod y categori</i> Gorchymyn cymunedol lefel uchel – 1 flwyddyn 6 mis o garchar	<i>Ystod y categori</i> Gorchymyn cymunedol lefel isel – 36 wythnos o garchar
Niwed 3	<i>Man cychwyn</i> 36 wythnos o garchar	<i>Man cychwyn</i> Gorchymyn cymunedol lefel uchel	<i>Man cychwyn</i> Gorchymyn cymunedol lefel ganolig
	<i>Ystod y categori</i> Gorchymyn cymunedol lefel uchel – 1	<i>Ystod y categori</i> Gorchymyn cymunedol	<i>Ystod y categori</i> Dirwy Band B – 26

	flwyddyn 6 mis o garchar	lefel isel – 36 wythnos o garchar	wythnos o garchar
--	--------------------------	-----------------------------------	-------------------

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr anghyflawn o elfennau ffeithiol ychwanegol sy'n rhoi cyd-destun y drosedd a ffactorau sy'n gysylltiedig â'r troseddwr. Dylai canfod a ddylai unrhyw gyfuniad o'r rhain, neu ffactorau perthnasol eraill, arwain at asesiad am i fyny neu i lawr o'r man cychwyn. Mewn rhai achosion, ar ôl ystyried y ffactorau hyn, mi all fod yn briodol i symud y tu allan i'r ystod categori a nodwyd.

Ffactorau sy'n cynyddu difrifoldeb

Ffactorau gwaethgol statudol:

- o Euogfarnau blaenorol, gyda sylw i a) *natur* y drosedd sy'n gysylltiedig â'r euogfarn a'i *pherthnasedd* i'r drosedd bresennol; a b) yr *amser* sydd wedi mynd heibio ers yr euogfarn
- o Trosedd a gyflawnwyd pan ar fechnïaeth
- o Trosedd wedi'i chymell gan, neu sy'n arddangos gelyniaeth yn seiliedig ar unrhyw un o'r nodweddion canlynol neu nodweddion tybiedig y dioddefwr:
 - o anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol
 - o Trosedd a gyflawnwyd yn erbyn gweithiwr yn y gwasanaethau brys wrth gyflawni swyddogaethau gweithiwr o'r fath

Ffactorau gwaethgol eraill:

- o Poeri neu besychu bwriadol
- o Trosedd a gyflawnwyd yn erbyn rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus neu sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd neu yn erbyn unigolyn sy'n dod i helpu gweithiwr yn y gwasanaethau brys
 - o Trosedd a gyflawnwyd mewn carchar (lle nad yw'n cael ei ystyried fel ffactor gwaethgol statudol)
 - o Trosedd a gyflawnwyd mewn cyd-destun domestig
 - o Hanes o drais neu gamdriniaeth tuag at ddioddefwr gan droseddwr
 - o Presenoldeb plant
 - o Israddio dioddefwr heb achos
 - o Camddefnyddio grym a/neu safle o ymddiriedaeth
 - o Unrhyw gamau a gymerwyd i atal y dioddefwr rhag rhoi gwybod am ddigwyddiad, cael help a/neu rhag cynorthwyo'r erlyniad
 - o Cyflawni trosedd o dan ddylanwad alcohol/cyffuriau
 - o Trosedd a gyflawnwyd pan ar drwydded neu sy'n destun goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu
 - o Methiant i gydymffurfio â gorchmynion llys presennol

Ffactorau sy'n lleihau difrifoldeb neu sy'n adlewyrchu lliniaru personol

- Dim euogfarnau blaenorol neu ddim euogfarnau perthnasol/diweddar
- Edifeirwch
- Cymeriad da a/neu ymddygiad rhagorol
- Elfen gref o bryfocio
- Hanes o drais neu gam-drin sylweddol tuag at y troseddwr gan y dioddefwr
- Oedran a/neu ddiffyg aeddfedrwydd
- Anhwylder meddyliol neu anabledd dysgu, lle nad yw'n gysylltiedig â chyflawni'r drosedd
- Unig neu brif ofalydd am berthynas/perthnasau dibynnol
- Penderfyniad a/neu allu dangos camau a gymerwyd i roi sylw i gaethiwed neu ymddygiad troseddol
- Cyflyrau meddygol difrifol sydd angen triniaeth frys, ddwys neu dymor hir

Eiriolaeth: Pwyntiau i'w nodi

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer eiriolaeth fel a ganlyn:

Sgiliau

1. Defnyddio iaith ac ymddygiad priodol.
2. Mabwysiadu strwythur clir a rhesymegol.
3. Cyflwyno dadl sy'n argyhoeddi.
4. Rhyngweithio / ymgysylltu'n briodol â'r llys.
5. Cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol.

Cymhwyso'r gyfraith

6. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir yn unol â sefyllfa'r cleient
7. Cymhwyso'r gyfraith yn gynhwysfawr yn ôl sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion moesegol ac sy'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest a gydag uniondeb.

Mae'r marcio'n cael ei wneud gan gyfreithwyr sydd wedi'u hyfforddi fel aseswyr ac a fydd yn chwarae rhan y barnwr. Mae'r marcio wedi'i safoni. Mae'n seiliedig ar grebwyll proffesiynol cyffredinol yn hytrach na dull ticio blychau neu restr wirio.

Y man cychwyn ar gyfer y crebwyll proffesiynol cyffredinol hwn yw safon cymhwysa'r asesiad, sef y Cyfreithiwr Diwrnod Un cymwys yn unig ([Y Safon Trothwy](#)). Mae marcwyr yn hyblyg o ran y dull a fabwysiedir gan yr ymgeisydd.

Mae marcio'n seiliedig ar berfformiad ar bob un o'r meini prawf asesu a ddyfernir ar raddfa o A – F fel a ganlyn:

A: Perfformiad uwch: ymhell uwchlaw gofynion cymhwysa'r asesiad

B: Yn amlwg yn foddhaol: yn amlwg yn bodloni gofynion cymhwysa'r asesiad

C: Pàs ymylol: ar y cyfan, dim ond bodloni gofynion cymhwysa'r asesiad

D: Methiant ymylol: ar y cyfan, dim ond methu â bodloni gofynion cymhwysa'r asesiad

E: Yn amlwg yn anfoddhaol: mae'n amlwg nad yw'n bodloni gofynion cymhwysa'r asesiad

F: Perfformiad gwael: ymhell islaw gofynion cymhwysedd yr asesiad

I gael rhagor o fanylion am y marcio gweler y [Fanyleb Asesu](#) a'r Polisi Marcio a Chymedroli (i'w gyhoeddi). Mae'r Fanyleb Asesu yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygir wrth iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol, a chymhwyso'r gyfraith yn gywir ac yn gynhwysfawr.

Mae pwyntiau cyfreithiol allweddol yn cynnwys y canlynol:

Nid oes angen cyfraith achos na dyfyniadau statudol manwl (e.e. darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) a Chodau Ymarfer PACE).

Lleoliad y treial

- Pwyntiau allweddol o'r Canllaw Dyrannu gyda pheth cymhwys o'r achos o ran dedfryd, cymhlethdod yr achos, a phwerau'r llys.
- Y ddedfryd debygol gyda chyfeiriad at y canllawiau dedfrydu diffiniol ar gyfer ABH (rhoddir y rhain gyda'r cwestiwn) sy'n gymwys i'r achos hwn: 'categori'r drosedd': beusrwydd a niwed; ystyriaeth i'r man cychwyn a'r ystod dedfrydu: ffactorau gwaethgol a lliniarol.

Sail ple dieuog, crynodeb o ffeithiau sy'n destun dadl ac y cytunir arnynt

- Canfod y prif fater ffeithiol yn yr achos: gwadu bod ymddygiad y diffynnydd wedi achosi anafiadau'r achwynydd fel yr honnwyd; dadl y diffynnydd yw bod anafiadau'r achwynydd wedi'u hachosi gan ei gweithredoedd hi ei hun.
- Canfod y ffeithiau sy'n destun dadl ac y cytunir arnynt drwy ddadansoddi'r dystiolaeth sy'n ategu dadleuon yr erlyniad a'r amddiffyniad.

Dadleuon cyfreithiol i wrthod tystiolaeth cyfaddefiad

- Adran 76 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE): gyda pheth cymhwysiad i ganfod y 'pethau a ddywedwyd neu a wnaed' a oedd yn debygol o olygu bod y cyfaddefiad yn annibynadwy.
- Adran 78 PACE gyda pheth cymhwysiad sy'n canfod torri PACE/COP yn achos y cyfaddefiad a fyddai'n golygu y byddai'n effeithio'n andwyol ar degwch yr achos pe bai'n cael ei dderbyn.

Nodyn ar atebion enghreifftiol:

Rhoddir dau ateb enghreifftiol (Sampl A a Sampl B). Nid yw'r naill ateb na'r llall yn berffaith nac yn ateb enghreifftiol ac mae pwyntiau eraill y gellid eu gwneud yn y ddau ateb. Ni ddylech gymryd yn ganiataol bod popeth yn yr enghreifftiau yn gywir. Mae A yn ateb cryfach na B ond mae'r ddau yn cyrraedd o leiaf y Safon Trothwy.

SAMPL A (gweler y nodyn ar atebion enghreifftiol, tudalen 18)

Madam, rwyf yn ymddangos ar ran Mr Steven Jackson, ac mi hoffwn annerch y Llys ynglŷn â'r materion hyn: yn gyntaf, pam y mae'n briodol i'r Llys gadw awdurdodaeth yn yr achos hwn; yn ail, ar ba sail y mae Mr Jackson wedi pledio'n ddiuog; ac yn drydydd, y dadleuon cyfreithiol dros wrthod cyfaddefiad Mr Jackson mewn cyfweliad o dan rybuddiad.

Yn achos dyrannu, dywed yr erlyniad fod achos Mr Jackson yn rhy ddifrifol i'r Llys Ynadon ei glywed. Fodd bynnag, er bod adran 47 yn drosedd neillffordd, mae hwn yn achos syml: nid oes materion na ffeithiau cyfreithiol cymhleth ac mae achos yr erlyniad i bob pwrpas yn fater o air un unigolyn yn erbyn un arall. Hyd yn oed pe ceid Mr Jackson yn euog, ni fyddai'n debygol o gael dedfryd o garchar a fyddai'n fwy na 12 mis. Yn fy sylwadau, mae'r llys yn fwy tebygol o roi dedfryd ddigarchar am nad oes gan Mr Jackson euogfarnau blaenorol ac yn absenoldeb unrhyw ragfwradau.

Madam, a gaf dynnu eich sylw at y canllaw dedfrydu ar gyfer ABH? Yn fy sylwadau mae'r drosedd hon yn dod o fewn ystod Categori 2 Niwed, Beiusrwydd Cymedrol y canllaw. Mae'r amddiffyniad yn derbyn bod trwyn Mrs Jackson wedi'i dorri, ac y gallai yng nghyd-destun eich canllawiau gael ei gategoreiddio fel 'niwed' sy'n dod o fewn categorïau 1 a 3.

Er ei fod yn cael ei dderbyn y gallai'r achwynydd gael ei chyfrif fel dioddefwr agored i niwed oherwydd natur ddomestig y digwyddiad, sy'n arwydd o feiusrwydd uwch, gellid disgrifio'r drosedd ei hun fel un fypwyl a byr. Madam, mi fuaswn i'n haeru y byddai'r ffactorau Beiusrwydd Is hyn yn galluogi'r llys i edrych ar hon fel trosedd Beiusrwydd Cymedrol.

Ar y sail bod y Llys yn cytuno â chategoreiddio'r drosedd fel trosedd Beiusrwydd Cymedrol, Niwed Categori 2, y man cychwyn ar gyfer dedfrydu fyddai 36 wythnos o garchar gydag ystod dedfrydu o orchymyn cymunedol lefel uchel i 18 mis o garchar. Digwyddodd yr anafiadau yng nghanol y nos. Fodd bynnag, gan gadw mewn cof nad oedd dim rhagfwrriad; bod Mr Jackson o gymeriad da, buaswn yn awgrymu y gallai Mr Jackson ddisgwyl dedfryd ar begwn isaf y raddfa.

Am y rhesymau hyn, pe ceid Mr Jackson yn euog, byddai gan y Llys bwerau dedfrydu digonol, ac rwyf yn gofyn i chi gadw awdurdodaeth ei achos.

Mae'r Llys yn derbyn awdurdodaeth ddiannod

Gan droi at y sail dros ble dieuog Mr Jackson. Plediodd Mr Jackson yn ddiuog am nad yw'n derbyn ei fod wedi achosi anafiadau Mrs Jackson. Mae Mr Jackson yn cytuno fod ffrae ffyrnig wedi digwydd â Mrs Jackson ar ôl iddo gyrraedd adref yn hwyr, a bod y ffrae honno wedi arwain at gwmp Mrs Jackson i lawr y grisiau ac at ei hanafu.

Mae Mr Jackson yn gwadu, fodd bynnag, ei fod wedi gwthio Mrs Jackson yn erbyn wal yr ystafell wely. Mi oedd wedi'i gwthio i ffwrdd i amddiffyn ei hun wrth iddi geisio'i daro.

Mae Mr Jackson hefyd yn gwadu ei fod wedi dyrnu Mrs Jackson yn ei hwyneb a'i fod wedi'i gwthio i lawr y grisiau.

Dadl Mr Jackson yw bod Mrs Jackson yn feddw ar adeg y digwyddiad a phan geisiodd adael y cartref priodasol mi gollodd hi bob rheolaeth. Dywed Mr Jackson pan oedd ar ben y grisiau ceisiodd Mrs Jackson ei atal rhag mynd heibio a'i bod wedi neidio amdano. Yna

baglodd Mrs Jackson dros y cês, collodd ei chydbwysedd a syrthiodd i lawr y grisiau ac anafu ei hun.

O ran cyfaddefiad Mr Jackson yn ei gyfweliad â'r heddlu, rwyf o'r farn na ddylid cynnwys cyfaddefiad Mr Jackson o dan adran 76 PACE, oherwydd ei fod wedi'i wneud yn groes i Godau Ymarfer PACE (COP) a'i fod felly'n annibynadwy.

Mae dwy enghraifft sylweddol o dorri'r Cod yr hoffwn dynnu sylw'r Llys atynt. Mae'r enghraifft gyntaf yn ymwneud â chymhelliad. Madam, os caf eich cyfeirio at y trawsgrifiad o gyfweliad Mr Jackson â'r heddlu, mi nodwch fod PC Collins wedi dweud wrth Mr Jackson pe byddai'n parhau i wadu'r honiad y bydda'n cael ei gadw yn y ddalfa ac y byddai ei achos yn cael ei gyfeirio at Wasanaeth Eryl y Goron, ac y byddai hynny'n cymryd amser. Roedd PC Collins yn gwybod bod Mr Jackson am i'r cyfweliad gael ei gwblhau'n sydyn am fod ganddo gyfarfod brys wedi'i drefnu. Dadl yr amddiffyniad yw bod PC Collins wedi rhoi pwysau ar Mr Jackson i gyfaddef drwy awgrymu y byddai'n cael ei gadw'n hwy yng ngorsaf yr heddlu oni bai ei fod yn cyfaddef i'w ran yn y drosedd.

Mae'r ail enghraifft yn ymwneud â'r pwysau a roddwyd ar Mr Jackson i wrthod cyngor cyfreithiol. Cafodd Mr Jackson ei gyfweld heb gyfreithiwr yn bresennol, ond roedd hyn am ei fod wedi cael ar ddeall os oedd am weld y cyfreithiwr ar ddyletswydd y byddai hynny'n achosi oed, ond os oedd yn "barod i gydweithredu", yna gallai gael ei gyfweld yn yr awr nesaf. Rhoddodd hyn bwysau annerbyniol ar Mr Jackson i gael ei gyfweld heb gyngor cyfreithiol.

Bydd yr amddiffyniad yn dadlau y dylai cyfaddefiad Mr Jackson gael ei wrthod hefyd o dan adran 78 o'r PACE.

Yn fy marn i, dylai cyfaddefiad Mr Jackson gael ei wrthod o dan adran 78 am y byddai'n cael effaith andwyol ar degwch yr achos. Cafwyd y cyfaddefiad nid yn unig yn groes i'r COP rwyf wedi'i grybwyll eisoes, ond hefyd am fod yr heddlu wedi parhau i holi Mr Jackson, er bod Mr Jackson wedi dweud ar ddechrau'r cyfweliad ei fod yn teimlo'n sâl. Mae'n ymddangos hefyd o'r trawsgrifiad o gyfweliad Mr Jackson â'r heddlu fod Mr Jackson wedi gorfod eistedd mewn tawelwch am 6 munud, sydd yn fy marn i wedi rhoi mwy o bwysau fyth ar Mr Jackson i wneud cyfaddefiadau na fyddai wedi'u gwneud pe bai cyfreithiwr yn bresennol.

I gloi, dylai cyfaddefiad Mr Jackson gael ei wrthod am nad yw'n ddibynadwy ac oherwydd y byddai'r cyfaddefiad wedi cael effaith andwyol ar degwch yr achos. Madam, os na allaf fod o gymorth pellach i chi, mae hyn yn cloi fy sylwadau.

Madam, rwyf yma heddiw i gynrychioli fy nghleient, Mr Jackson. Mae Mr Jackson wedi pledio'n ddieuog i ABH, trosedd sy'n mynd yn groes i adran 47 o'r Ddeddf Troseddau Corfforol 1861.

Yn achos treial diannod, uchafswm y ddedfryd y gallech ei rhoi, pe bai fy nghleient yn euog, fyddai 12 mis o garchar. Fodd bynnag, os edrychwch chi ar y canllawiau dedfrydu, ac yr wyf i wedi, byddwn yn awgrymu y byddai'r drosedd dan sylw'n dod o fewn ystod Beiusrwydd Canolig, Niwed Categori 2, pe ceid Mr Jackson yn euog. Mae fy nghleient yn derbyn bod Mrs Jackson wedi torri ei thrwyn a bod hwn yn anaf difrifol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y canllaw, byddwn yn awgrymu y gellid categoreiddio'r lefel hon o anaf o fewn y categori niwed cymedrol. Nid oes dim tystiolaeth o ragfwriad. Hefyd, yr unig ffactor gwaethybol statudol sy'n bresennol yw natur ddomestig y drosedd honedig ei hun. Mae fy nghleient o gymeriad dilychwin – nid oes ganddo ddim euogfarnau na rhybuddiadau blaenorol ac mae'n hunangyflogedig. Nid oes dim i awgrymu bod y drosedd yn ddim mwy nag un digwyddiad unigol. Mi fyddwn felly yn disgwyl gorchymyn cymunedol lefel uchel. Mae fy nghleient ar hyn o bryd yn gwneud popeth o fewn ei allu i achub ei fusnes, a byddai dedfryd o garchar yn debygol o niweidio ei incwm a pheryglu goroesiad ei fusnes.

Rwyf felly'n gofyn bod y llys yn cadw awdurdodaeth ddiannod.

Mae'r Llys yn derbyn awdurdodaeth ddiannod

Madam, mae amheuaeth ynglŷn â'r rhan fwyaf o'r ffeithiau yn yr achos hwn. Yr hyn y cytunir arnynt yw bod Mr Jackson wedi profi anawsterau ariannol a'i fod wedi cael ffrae danllyd â Mrs Jackson ar y noson dan sylw.

Os caf gyfeirio at ddatganiad Mrs Jackson, lle mae hi'n honni bod Mr Jackson wedi cyrraedd adref yn hwyr ac yn feddw. Dywed Mrs Jackson ei bod yn credu fod Mr Jackson yn cael perthynas a phan heriodd hi ef ynglŷn â hyn, mi adweithiodd yn dreisgar a'i gwthio yn erbyn wal yr ystafell wely. Yna dechreuodd bacio'i gês i adael y tŷ. Dilynodd Mrs Jackson ei gŵr ar y landin a gofyn iddo beth oedd yn ei wneud. Ar yr adeg hon, rhoddodd Mr Jackson ddwrn i Mrs Jackson, a'i a'i gwthio, gan achosi iddi syrthio yn ôl i lawr y grisiau. Yna aethpwyd â Mrs Jackson i'r ysbyty a dywed ei bod yn ofni dychwelyd adref.

Mae fy nghleient yn gwadu fersiwn Mrs Jackson o'r digwyddiadau. Dywed ei fod wedi bod yn gweithio'n hwyr, am ei fod yn ceisio achub ei fusnes. Nid oedd wedi bod yn yfed ac roedd wedi gyrru adref yn gwbl sobor. Y rheswm ei fod yn hwyr yn cyrraedd adref oedd traffig trwm, ac nid am ei fod yn cael perthynas. Mae fy nghleient yn honni mai Mrs Jackson sydd â phroblem alcohol.

Pan gyrhaeddodd fy nghleient adref, roedd Mrs Jackson yn feddw iawn a heriodd ef am ei bod yn credu ei fod mewn perthynas arall. Gwadodd fy nghleient ei fod yn cael perthynas. Dywedodd fy nghleient wrth Mrs Jackson ar y pryd fod eu priodas ar ben a'i fod yn gadael. Yna dywedodd Mrs Jackson nad oedd yn addas i fod yn rhiant a dywedodd y byddai hi'n cymryd y busnes oddi arno. Yna dilynodd fy nghleient i'r landin ac, ar ben y grisiau, neidiodd amdano cyn baglu dros gês, colli ei chydbwysedd a syrthio i lawr y grisiau. Gadawodd fy nghleient y tŷ heb sylweddoli bod Mrs Jackson wedi'i hanafu.

Dyma'r rhesymau pam mae fy nghleient wedi pledio'n ddieuog i'r drosedd.

Mae'r erlyniad yn haeru bod fy nghleient wedi cyfaddef iddo slapio a gwthio Mrs Jackson ar ben y grisiau, yn ei gyfweliad â'r heddlu. Rwyf o'r farn nad yw'r cyfaddefiad yn ddilys mewn tystiolaeth. Mae fy nghleient yn cyfaddef ei fod wedi bod yn yfed drwy'r dydd ar ôl y digwyddiad honedig a'i fod wedi deffro yn ei gell gyda chur mawr yn ei ben. Er ei fod wedi dweud wrth yr heddlu ei fod yn teimlo'n sâl, ac yn rhy sâl i fwyta brechwast, ni chafodd unrhyw driniaeth feddygol. Hefyd, rhoddwyd pwysau ar fy nghleient i wrthod ei hawl i gael cyngor cyfreithiol, am ei fod wedi cael ar ddeall y câi ei gyfweld yn gynt os na fyddai ganddo gyfreithiwr. Nid yw fy nghleient erioed wedi cael ei arestio o'r blaen ac roedd yr heddlu wedi manteisio ar y ffaith ei fod yn agored i niwed ac yn ddibrofiad,

Byddwn felly'n awgrymu nad yw cyfaddefiad fy nghleient yn dderbyniol. Ni ellir dibynnu arno a byddai'n annheg i ddibynnu arno o dan PACE. Roedd fy nghleient wedi dweud pethau na ddylai fod wedi'u dweud ond roedd hyn am ei fod wedi'i roi dan bwysau ac y dylai fod wedi cael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Nid oes gennyf ragor o sylwadau i'w gwneud.